WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2018 – **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1016A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol gan Barrie Morris, Gail Turner-Radcliffe, Elaine Matthews a Gareth Lewis dan gyfarwyddyd David Thomas.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Yr adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o gyfrifon 6

Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar gywirdeb a pharatoad priodol datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18 ond, wrth wneud hynny, rwyf wedi dwyn rhai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd 6

Rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yn natganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau 8

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cael ei arwain a'i lywodraethu'n dda ar y cyfan ac mae'n ymgymryd â gwaith mewn amryw o feysydd i barhau i gryfhau ei drefniadau llywodraethu 9

Mae cynlluniau strategol y Bwrdd Iechyd yn dod yn fwyfwy systematig, gyda gwell mecanweithiau ar gyfer monitro gwaith cyflwyno, ac mae'n cyflwyno dull newydd o roi ei IMTP ar waith 10

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â heriau'r gweithlu ac yn cynnal perfformiad ariannol ar y cyfan, ond mae'n wynebu heriau mewn perthynas â chyflwr yr ystâd a rheoli cyfarpar meddygol 11

Mae fy rhaglen waith ehangach yn nodi bod y Bwrdd Iechyd yn ymateb i risgiau a chyfleoedd, ond ei fod yn dal i wynebu sawl her 12

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud llawer o ddefnydd o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll a gordaliadau 14

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 15

Atodiad 2 – ffi archwilio 16

Atodiad 3 – risgiau archwilio sylweddol 17

# Adroddiad cryno

## Yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2018. Ymgymerais â'r gwaith hwnnw er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi:

a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b) bodloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â nhw wedi cael eu cymhwyso yn unol â'r dibenion bwriadedig ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a

c) bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

2 Rwyf wedi adrodd fy nghanfyddiadau o dan y penawdau canlynol:

- Negeseuon allweddol
- Archwiliad o gyfrifon
- Trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau

3 Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r adroddiad archwilio blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

4 Rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2018.

5 Mae Atodiad 3 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol sylweddol a amlygwyd yng Nghynllun Archwilio 2018 a sut yr aed i'r afael â nhw yn ystod yr archwiliad.

6 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 17 Ionawr 2019. Bydd y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol a bydd pob aelod yn cael copi ohono. Anogwn y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

7 Hoffem ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod y gwaith archwilio mae fy nhîm wedi ei gyflawni dros y 12 mis diwethaf.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o gyfrifon

8 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn faterol gywir, ac ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i archwilio'r cyfrifon. Felly, rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar eu paratoad.

9 Fodd bynnag, wrth gyhoeddi'r farn ddiamod hon, rwyf wedi dwyn rhai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Mae'r rhain yn ymwneud â phrosesu ac awdurdodi dyddlyfrau, datgeliadau manylach yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a chyfrifo'r gydnabyddiaeth ariannol. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar gyfer y cyfnod tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon 2017-18.

10 Gan fod y Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i fantoli'r gyllideb a gan fod ganddo gynllun tair blynedd cymeradwy ar waith ac nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu nodi, ni roddwyd unrhyw adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

11 Mae fy ngwaith asesu strwythuredig 2018 yn y Bwrdd Iechyd wedi dod i'r casgliad:

- bod y Bwrdd Iechyd yn cael ei arwain a'i lywodraethu'n dda ar y cyfan a'i fod yn ymgymryd â gwaith mewn amryw o feysydd i barhau i gryfhau ei drefniadau llywodraethu;
- bod cynlluniau strategol y Bwrdd Iechyd yn dod yn fwyfwy systematig, gyda gwell mecanweithiau ar gyfer monitro gwaith cyflwyno, a;i fod yn cyflwyno dull newydd o roi ei IMTP ar waith; a
- bod y Bwrdd Iechyd yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â heriau'r gweithlu ac yn cynnal perfformiad ariannol ar y cyfan, ond ei fod yn wynebu heriau mewn perthynas â chyflwr yr ystâd a rheoli cyfarpar meddygol.

12 Mae adolygiadau o wasanaethau gofal sylfaenol ac apwyntiadau dilynol cleifion allanol wedi dod o hyd i rai enghreifftiau o arfer da, ynghyd â chyfleoedd i gryfhau trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

13 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol, ond nid yw wedi gwneud llawer o ddefnydd o'r data a ryddhawyd yn 2017.

14 Ystyrir y canfyddiadau hyn ymhellach yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o gyfrifon

15 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol yn rhan hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

16 Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i hincwm a'i gwariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol a gofynion eraill ac yn cydymffurfio â gofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
- a yw'r wybodaeth arall a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol (yr adroddiad blynyddol fel arfer) yn gyson â nhw; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol.

17 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

## Rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar gywirdeb a pharatoad priodol datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18 ond, wrth wneud hynny, rwyf wedi dwyn rhai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd

### Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon y bwrdd Iechyd wedi'u paratoi'n briodol ac yn faterol gywir, ac ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd sy'n berthnasol i archwilio'r cyfrifon

18 Derbyniwyd y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 ar 27 Ebrill 2018, yn unol â'r amserlen gytunedig. Roedd y papurau gwaith wedi'u paratoi i safon uchel.

19 Adolygais y rheolaethau mewnol hynny a oedd yn berthnasol i'r archwiliad yn fy marn i er mwyn fy helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risg o gamddatganiad perthnasol yn y cyfrifon. Ni chawsant eu hystyried gennyf at ddibenion mynegi barn ar eu heffeithiolrwydd o ran gweithredu rheolaeth fewnol. Ni nododd fy adolygiad unrhyw ddiffygion sylweddol o ran rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd.

20 Mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Adroddodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol y materion hyn i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd y Bwrdd Iechyd ar 29 Mai 2018. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: materion a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi a rhoi sylwadau ar y materion allweddol a nodwyd.

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau heb eu cywiro | Dim. |
| Camddatganiadau wedi'u cywiro | Gwnaed sawl cywiriad i'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol, gan gynnwys cywiro camddosbarthiad costau gweithwyr cyflogedig. Ni chafodd y cywiriadau hyn unrhyw effaith ariannol. |
| Materion sylweddol eraill | Gwnaed argymhellion mewn perthynas â phrosesu ac awdurdodi dyddlyfrau, datgeliadau manylach yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a chyfrifo'r gydnabyddiaeth ariannol. |

21 Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais adolygiad o'r ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad fod y wybodaeth gyfunol gyfatebol yn cyd-fynd â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2018 a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

22 Cyflwynwyd fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol i ymddiriedolwyr ar 15 Tachwedd 2018.

## Rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yn natganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd

### Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar gyfer y cyfnod tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodion ariannol yng nghyfrifon 2017-18

23 Rhaid i drafodion ariannol y Bwrdd Iechyd gyd-fynd â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Rhaid bod ganddo'r pwerau i dderbyn yr incwm a gwneud y gwariant sydd ganddo. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi nad oes unrhyw elfennau incwm neu wariant perthnasol nad oes gan y Bwrdd Iechyd yr hawl i'w derbyn neu eu gwneud.

24 Lle nad yw Bwrdd Iechyd yn llwyddo i fantoli'r gyllideb, mae ei wariant yn fwy na'i bwerau i wario ac felly mae'n rhaid i mi roi barn amodol ar reoleidd-dra. Llwyddodd

y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb yn 2015-16, 2016-17 a 2017-18 fel y dangosir yn Arddangosyn 2 isod. Felly, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb dros y tair blynedd.

Arddangosyn 2: sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn sy'n cyflawni'r ddyletswydd statudol tair blynedd

| Blwyddyn Ariannol | Sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn (£000) |
|---|---|
| 2015-16 | 40 |
| 2016-17 | 85 |
| 2017-18 | 96 |

Gan fod y Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i fantoli'r gyllideb a gan fod ganddo gynllun tair blynedd cymeradwy ar waith ac nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu nodi, ni roddwyd unrhyw adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd

25 Mae'r pŵer gennyf i roi adroddiad o sylwedd ar gyfrifon y Bwrdd Iechyd ochr yn ochr â'm safbwyntiau lle rwyf am dynnu sylw at broblemau. Gan fod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei dwy ddyletswydd ariannol: mantoli'r gyllideb (fel yr amlinellir uchod) a bod â chynllun tair blynedd cymeradwy ar waith, ac nad oedd unrhyw faterion eraill yr oedd angen eu nodi, ni roddais adroddiad o sylwedd ar y cyfrifon.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

26 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd Iechyd;
- adolygu dulliau'r Bwrdd Iechyd o ymdrin â chynllunio strategol;
- archwilio'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer rheoli cyllid, gweithlu, asedau a gwaith caffael y Bwrdd Iechyd;
- defnydd penodol o waith adnoddau ar wasanaethau gofal sylfaenol a gweithio mewn partneriaeth rhanbarthol;
- adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio allanol; ac

- asesu'r defnydd o ymarferion paru data fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI).

27 Nodir fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn isod.

## Mae’r Bwrdd Iechyd yn cael ei arwain a’i lywodraethu’n dda ar y cyfan ac mae’n ymgymryd â gwaith mewn amryw o feysydd i barhau i gryfhau ei drefniadau llywodraethu

28 Archwiliodd fy ngwaith asesu strwythuredig drefniadau llywodraethu’r Bwrdd Iechyd, y modd y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn cynnal eu busnes ac i ba raddau y mae strwythurau trefniadol yn cefnogi llywodraethu da ac atebolrwydd clir. Edrychais ar y wybodaeth y mae pwyllgorau'r Bwrdd a'r Bwrdd yn ei derbyn hefyd i'w helpu i oruchwylio a herio perfformiad a monitro’r gwaith o gyflawni amcanion y sefydliad. Gwelais y canlynol.

29 **Mae trefniadau ar gyfer y Bwrdd a’r Pwyllgorau yn dda ar y cyfan, gyda lle i wneud gwelliannau pellach i rai agweddau ar eu trefniadau ar gyfer sicrwydd**. Daeth fy ngwaith i’r casgliad bod gweinyddiaeth cyfarfodydd y Bwrdd yn dda ar y cyfan, gyda llif da o sicrwydd a risg rhwng y pwyllgorau a’r Bwrdd a her briodol. Mae newidiadau wedi’u gwneud i’r Rheolau Sefydlog i gryfhau gweinyddiaeth y Bwrdd a’r Pwyllgorau, a bydd y weinyddiaeth yn fwy effeithlon ar ôl iddynt symud o ddogfennau papur i feddalwedd Bwrdd yn ôl y bwriad. Gallai’r Bwrdd archwilio cyfleoedd hefyd i gynyddu gwelededd cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd.

30 **Mae’r Bwrdd Iechyd yn parhau i gryfhau fframwaith sicrwydd y Bwrdd a’i drefniadau rheoli risg**. Daeth fy ngwaith i’r casgliad bod gwaith yn mynd rhagddo i ddiweddaru fframwaith sicrwydd y Bwrdd trwy gyflwyno ei gynllun gwella a defnyddio’r fframwaith sicrwydd. Mae’r gofrestr risg gorfforaethol wedi parhau i esblygu, er bod lefel y risgiau wedi aros yr un fath er gwaethaf llawer o weithgarwch i’w lleihau. Mae’r fframwaith sicrwydd comisiynu yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol i adrodd ar bryderon gyda pherfformiad gwasanaethau a gomisiynir.

31 **Er bod rheolaethau mewnol ffurfiol yn gadarn ar y cyfan, mae angen rhoi mwy o sylw i rai meysydd**. Daeth fy ngwaith o hyd i raglenni gwaith â ffocws ar gyfer Archwilio Mewnol, Mentrau Gwrth-dwyll Lleol a Dilysu ar ôl Talu, ond mae trefniadau archwilio clinigol yn parhau i ddatblygu. Mae Rheolau Sefydlog a’r Cynllun Cadw a Dirprwyo yn gyfredol, ond mae angen diweddaru Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ac nid oes trefniadau ar waith ar gyfer datganiadau o fuddiant a rhoddion a lletygarwch. Er bod y trefniadau ar gyfer y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn rhesymol, maent yn gweithio i gryfhau trefniadau i sicrhau y gallant gyflwyno achosion o dramgwydd i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth o fewn 72 awr.

32 **Mae newidiadau i bortffolios ymhlith y tîm Gweithredol a threfniadau i gryfhau dirprwyaeth i ddirprwyon yn cefnogi llywodraethu clinigol**. Mae nifer sylweddol o newidiadau wedi’u gwneud i Gyfarwyddwyr Gweithredol a phortffolios

yn ystod 2018, ac mae'r newidiadau hyn wedi parhau i effeithio ar wahanol rannau o'r busnes drwy'r flwyddyn. Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud i gryfhau cyfarwyddiaethau trwy benodi Dirprwy Gyfarwyddwyr yn y rhan fwyaf o ardaloedd, gyda chynlluniau i recriwtio mwy. Mae cynlluniau'n cael eu datblygu hefyd i wneud newidiadau i ddyluniad sefydliadol i sicrhau bod adnoddau'n cyfateb yn well i amcanion ar bob lefel, a byddant yn cael eu rhoi ar waith yn 2019.

33 **Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal ffocws da ar gyflawni argymhellion o waith archwilio mewnol, nid yw'r Pwyllgor wedi cyhoeddi adolygiad o'r adnodd olrhain argymhellion archwilio llawn.** Er bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd wedi derbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd o ran rhoi argymhellion archwilio mewnol ar waith, yn ystod 2018 nid yw'r Pwyllgor wedi derbyn unrhyw wybodaeth debyg am y cynnydd o ran rhoi argymhellion archwilio allanol ar waith. Nid yw'r Pwyllgor wedi cael yr adnodd olrhain argymhellion llawn i gefnogi goruchwylio a chraffu gan Aelodau Annibynnol, er fy mod i'n deall bod cynlluniau ar waith i gyflwyno adnodd olrhain mwy hygyrch yn 2019. Rwy'n trafod cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran rhoi fy argymhellion ar waith ymhellach ym mharagraffau 50 a 51.

## Mae cynlluniau strategol y Bwrdd Iechyd yn dod yn fwyfwy systematig, gyda gwell mecanweithiau ar gyfer monitro gwaith cyflwyno, ac mae'n cyflwyno dull newydd o roi ei IMTP ar waith

34 Edrychodd fy ngwaith ar y ffordd y mae'r Bwrdd yn ymgysylltu â phartneriaid ac yn pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer y sefydliad. Asesais hefyd pa mor dda y mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio'r gwaith o gyflawni ei amcanion a sut y mae'n monitro cynnydd wrth gyflawni'r cynlluniau. Nodir fy nghanfyddiadau isod.

35 Mae gan y Bwrdd Iechyd IMTP a gymeradwywyd gan y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-2021. Dyma'r bedwaredd flwyddyn yn olynol i IMTP y Bwrdd Iechyd gael ei gymeradwyo. Cafodd yr IMTP ar gyfer 2018-2021 ei ailstrwythuro yn seiliedig ar yr wyth amcan llesiant i sicrhau ei fod yn cyfateb i Strategaeth Iechyd a Gofal deng mlynedd Powys a gymeradwywyd yn 2017. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwaith ymgysylltu eang gyda rhanddeiliaid wrth ddatblygu ei gynlluniau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddylanwadu ar yr amryw o raglenni newid strategol sydd ar waith yn y sefydliadau mae cleifion Powys yn eu defnyddio.

36 Dechreuodd y gwaith cynllunio ar gyfer IMTP 2019-2021 yn gynharach yn y flwyddyn. Mae gwaith ar newid clinigol yn cael ei wneud o dan ambarél 'mynd i'r afael â'r 4 mawr', sef iechyd meddwl, canser, cyflyrau anadlol a chyflyrau cylchrediad y gwaed. Bydd datblygiad strategaeth glinigol yn cychwyn yn y misoedd nesaf.

37 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella ei drefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ei IMTP trwy ei Grŵp Cyflawni a Pherfformiad Gweithredol a'i raglen o adolygiadau perfformiad cyfarwyddiaeth ddwywaith y flwyddyn. Bydd fframwaith datblygu

sefydliadol, i'w roi ar waith yn gynnar yn 2019, yn darparu dull newydd o roi'r IMTP ar waith.

38 Mae'r trefniadau monitro ac adrodd yn ddigonol ar y cyfan. Cafodd fformat adroddiadau perfformiad integredig ei ddiwygio ar ddechrau 2018-19 i sicrhau ei fod yn cyfateb i'r wyth amcan llesiant ac yn darparu gwybodaeth feincnodi.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â heriau'r gweithlu ac yn cynnal perfformiad ariannol ar y cyfan, ond mae'n wynebu heriau mewn perthynas â chyflwr yr ystâd a rheoli cyfarpar meddygol

39 Edrychodd fy ngwaith asesu strwythuredig ar drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei weithlu, ei gyllid a'i asedau ffisegol eraill i ategu defnyddio adnoddau'n effeithlon, effeithiol a darbodus. Ystyriais hefyd y trefniadau ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau, a'r camau sy'n cael eu cymryd i wneud y gorau o effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Nodir fy nghanfyddiadau isod.

40 **Er bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i fantoli'r gyllideb, mae angen gwella rhai agweddau ar lywodraethu a rheolaeth ariannol**. Mae gan y Bwrdd Iechyd IMTP cymeradwy ar gyfer 2018-2021 sy'n dangos y sefyllfa ariannol os bydd yn llwyddo i fantoli'r gyllideb dros y tair blynedd ariannol nesaf, ond nid yw hyn yn cynnwys y diffyg o £3.5 miliwn a ragfynegir yn 2018-19.

41 Er mwyn mantoli'r gyllideb yn 2018-19, rhaid i'r Bwrdd Iechyd gyflawni arbedion o £3.371 miliwn. Ym mis 7, y gorwariant oedd £1.188 miliwn a £0.910 miliwn yn erbyn y cynllun i fantoli'r gyllideb. Maent wedi cyflawni arbedion o £1.429 miliwn yn erbyn targed y flwyddyn hyd yma o £1.937 miliwn, sef diffyg o £0.508 miliwn. Y rhagolygon yw y bydd £3.096 miliwn yn cael ei gyflawni yn erbyn y targed o £3.371 miliwn, sef diffyg o £0.275 miliwn. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran datblygu cynlluniau arbed, ond mae yna gyfleoedd am welliannau pellach o hyd.

42 Mae'r broses cyllideb refeniw wedi bod yn datblygu dros y blynyddoedd diwethaf, er nad yw'r holl lythyrau cyllideb wedi'u llofnodi gan y Tîm Gweithredol. Mae'r broses cyllidebu cyfalaf wedi'i chryfhau dros y ddwy flynedd diwethaf hefyd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i reoli'r risg o fethiant yn y gwasanaeth gofal y tu allan i oriau arferol a ddarperir gan Shropdoc, er bod y risg o fethiant yn dal i beri pryder.

43 **Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella trefniadau ar gyfer rheoli a chefnogi staff, ond mae lle i wella mesurau perfformiad allweddol.** Deuthum i'r casgliad bod y cyfraddau absenoldeb salwch yn well na chyfartaledd Cymru, ond eu bod yn dal i fod yn uwch na'r targed. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i iechyd a llesiant ei staff, ac roedd canlyniadau Arolwg Staff y GIG 2018 yn gadarnhaol iawn ar y cyfan. Fodd bynnag, y gyfradd trosiant yw'r uchaf yng Nghymru o hyd, er gwaethaf cryn waith i ddeall pam. Er bod gwelliannau wedi'u gwneud i drefniadau staffio dros dro, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddibynnu'n fawr ar staff asiantaeth. Mae'r

Bwrdd Iechyd wedi rhoi trefniadau ar waith i fodloni gofynion adran 25A o'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru), sef yr unig adran sy'n berthnasol ar hyn o bryd.

44 **Mae gan y Bwrdd Iechyd ffocws da ar wella cynhyrchiant.** Mae llawer o brosiectau a ffrydiau gwaith wedi'u sefydlu i ddarparu iechyd a gofal darbodus, ac mae mwy a mwy o wasanaethau'n cael eu meincnodi i hyrwyddo gwelliant. Roedd perfformiad yn erbyn y cynllun blynyddol a mesurau Llywodraeth Cymru yn dda ar ddiwedd 2017-18, ac mae ar y trywydd iawn ar gyfer 2018-19.

45 **Mae oedran a chyflwr yr ystâd yn dal i beri risg uchel; mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu ei ymagwedd tymor hir at asedau sector cyhoeddus ac yn targedu'r rhaglen gyfalaf i fynd i'r afael â chydymffurfiaeth.**

46 Er nad oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ystadau ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd wedi cytuno ar y cyfeiriad tymor hir ar gyfer gwasanaethau trwy'r Strategaeth Iechyd a Gofal, ac mae wedi ymrwymo i ddatblygu strategaeth ystadau tymor hir yn ystod 2018-19. Yn dilyn arolwg diweddar, rwy'n deall mai cyflwr yr ystâd yw'r gwaethaf yng Nghymru, gyda ôl-groniad cynnal a chadw uchel sy'n parhau i beri risg uchel. Mae gwaith wedi parhau i gryfhau materion cydymffurfiaeth tymor hir.

47 Mae trefniadau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) wedi'u cryfhau yn y Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn, er nad yw'r strategaeth ar y cyd â Chyngor Sir Powys wedi'i chymeradwyo. Er bod cynllun gweithredu seiberddiogelwch ar waith, mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau ei fod yn derbyn lefel briodol o sicrwydd mewn perthynas â chryfder ei drefniadau seiberddiogelwch.

## Mae fy rhaglen waith ehangach yn nodi bod y Bwrdd Iechyd yn ymateb i risgiau a chyfleoedd, ond ei fod yn dal i wynebu sawl her

### Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir ar gyfer gofal sylfaenol ac mae'n gwneud cynnydd graddol o ran gweithredu agweddau allweddol ar y weledigaeth genedlaethol. Fodd bynnag, mae perfformiad yn gymysg ac mae diffyg eglurder ynghylch buddsoddiad cyffredinol y Bwrdd Iechyd mewn gofal sylfaenol

48 Deuthum i'r casgliad fod gan y Bwrdd Iechyd fframwaith cynllunio gofal sylfaenol clir a'i fod yn cryfhau ei drefniadau ymgysylltu a chymorth gyda chlystyrau gofal sylfaenol a rhwydweithiau meddygfeydd teulu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd graddol o ran cyflawni ei gynlluniau, ond mae perfformiad gofal sylfaenol yn gymysg ac mae sawl her sylweddol yn bodoli o hyd. Mae lle hefyd i gynyddu'r ffocws ar ofal sylfaenol wrth fonitro perfformiad ac ym musnes y Bwrdd.

49 Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro gwariant clystyrau yn effeithiol, er nad yw'n gallu mesur faint o adnoddau y mae wedi'i ailgyfarwyddo i ofal sylfaenol, ac mae'r data sydd ar gael yn ei gwneud hi'n anodd i gyfrifo'r buddsoddiad cyffredinol mewn gofal sylfaenol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cysylltu â meddygfeydd yn rheolaidd i fonitro

cynaliadwyedd, ond mae bylchau mewn data yn rhwystro gwaith cynllunio'r gweithlu ac mae rhwystrau i ddatblygiad pellach timau amlddisgyblaethol.

### Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'm hargymhellion blaenorol ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol, er bod angen gwneud gwaith pellach mewn perthynas â sicrwydd a datblygu llwybrau amgen

50 Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi ymgymryd â gwaith archwilio dilynol manwl hefyd i asesu'r cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â phryderon ac argymhellion sy'n deillio o waith archwilio blaenorol ar apwyntiadau dilynol cleifion allanol. Crynhoir canfyddiadau'r gwaith dilynol hwn yn Arddangosyn 3.

Arddangosyn 3: cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwilio mewn meysydd gwasanaeth penodol

| Maes gwaith dilynol | Casgliadau a phrif ganfyddiadau archwilio |
|---|---|
| Adolygiad o Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol – Asesiad o Gynnydd | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran nodi angen clinigol a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag oedi apwyntiadau dilynol cleifion allanol yn ei wasanaethau ei hun, ond mae angen rhoi mwy o sylw i gryfhau trefniadau sicrwydd comisiynu a blaenoriaethu llwybrau amgen ar gyfer cleifion sy'n cael eu trin y tu allan i ardal y Bwrdd Iechyd. |

### Mae fy nghanfyddiadau sy'n dod i'r amlwg ar y Gronfa Gofal Integredig yn dangos ei bod yn cael amryw o effeithiau cadarnhaol, ond bod rhai heriau y mae angen i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol weithio trwyddynt hefyd

51 Rwyf wedi cwblhau'r gwaith maes ar gyfer fy adolygiad o'r Gronfa Gofal Integredig traws-sector. Rwy'n bwriadu paratoi adroddiad cryno cenedlaethol yn fuan yn 2019, gan nodi fy nghanfyddiadau ar gyfer Cymru gyfan. Mae fy nhîm archwilio wedi cyflwyno canfyddiadau lleol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Y negeseuon allweddol ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys yw:

- mae'r Gronfa Gofal Integredig (y Gronfa) wedi cael effaith gadarnhaol wrth ddod â sefydliadau at ei gilydd ar draws Rhanbarth Powys. Yn wahanol i lawer o ranbarthau eraill, mae gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys gynrychiolaeth tai, sy'n gadarnhaol, ac mae wedi dewis cael mwy o gynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr nag sy'n ofynnol mewn deddfwriaeth.
- mae'r penderfyniadau sy'n ymwneud â defnyddio'r Gronfa yn cael eu dirprwyo i is-grwpiau'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol, ond dim ond yn ddiweddar y sefydlwyd rhai o'r rhain ac mae angen iddynt aeddfedu

ymhellach. Yn ogystal, mae angen gwella lefel y ddealltwriaeth o fewn sefydliadau partner o waith y bwrdd partneriaeth rhanbarthol a'i is-grwpiau, gan gynnwys yr hyn y mae'r Gronfa'n cael ei defnyddio ar ei gyfer a'i heffaith.

- mae llithriad ar brosiectau'r Gronfa Gofal Integredig wedi peri problem yn y gorffennol, gan arwain at gronfeydd yn cael eu dychwelyd i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn. Mae gwell goruchwyliaeth gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a newid o ran rheoli prosiectau dros gyfnod o ddwy flynedd wedi helpu i wella rheolaeth y Gronfa. O ystyried natur flynyddol y dyraniad, fodd bynnag, mae'r dull proffilio dwy flynedd yn creu risg ar wahân i brosiectau os nad yw'r gronfa ar gael i'r un graddau yn yr ail flwyddyn.
- mae cytundeb cyffredinol bod y Gronfa'n cefnogi'r prosiectau cywir ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr gwasanaethau, ond fel byrddau partneriaeth rhanbarthol eraill ledled Cymru, ychydig iawn o brosiectau sy'n cael eu prif ffrydio i wasanaethau craidd. Mae rhanbarth Powys yn ceisio dangos canlyniadau'n gliriach, ond mae hyn yn cyflwyno her.

## Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud llawer o ddefnydd o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll a gordaliadau

52 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ymarfer paru data bob dwy flynedd sy'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau drwy baru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i adnabod hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'n adnodd hynod effeithiol o ran canfod ac atal twyll a gordaliadau a helpu sefydliadau i gryfhau eu trefniadau gwrth-dwyll a llygredd.

53 Ym mis Ionawr 2017, derbyniodd y Bwrdd Iechyd 147 o ymarferion paru data risg uchel o ymarfer paru data 2016. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud llawer o gynnydd o ran adolygu'r ymarferion paru hyn ac, er nad oes unrhyw achosion o dwyll wedi'u nodi hyd yma, mae'n bwysig i'r Bwrdd Iechyd wneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i sicrhau ei fod mewn sefyllfa dda i ganfod twyll ac i ddarparu sicrwydd bod ei drefniadau gwrth-dwyll yn gweithio'n effeithiol. Ym mis Hydref 2018, cyflwynodd cyrff oedd yn cymryd rhan ddata ar gyfer yr ymarfer paru data nesaf. Bydd canlyniadau'r ymarfer hwn ar gael yn gynnar yn 2019.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

### Arddangosyn 4: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2018.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mai 2018 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2018 |
| Barn ar y Gronfa Elusennol | Rhagfyr 2018 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygiad o Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol – Asesiad o Gynnydd | Chwefror 2018 |
| Gofal Sylfaenol | Medi 2018 |
| Asesiad Strwythuredig 2018 | Ionawr 2019 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2018 | Mawrth 2018 |

### Arddangosyn 5: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fod ar y gweill

Mae yna sawl archwiliad o berfformiad sy'n dal i fod ar y gweill yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau amcangyfrifedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Codio clinigol | Mai 2019 |
| Orthopedeg | Hydref 2019 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2018 ffi archwilio arfaethedig o £264,305 (heb gynnwys TAW). Fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yw y bydd angen iddi gynyddu £8,933 (heb gynnwys TAW) i adlewyrchu'r gwaith sy'n mynd rhagddo mewn perthynas ag archwiliad llawn o ddatganiadau ariannol 2017-18 Cronfa Elusennol y Bwrdd Iechyd. Roedd archwiliad llawn o'r datganiadau hyn yn ofynnol o ystyried y ffaith bod gwerth y Gronfa yn fwy na'r trothwy ar gyfer yr Archwiliad Annibynnol mwy rheolaidd.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio ariannol sylweddol

### Arddangosyn 6: risgiau archwilio sylweddol

Mae fy Nghynllun Archwilio 2018 yn nodi'r risgiau archwilio ariannol sylweddol ar gyfer 2018. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr ymdriniwyd â hwy fel rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol. | Rydym wedi:<br>• profi priodoldeb sampl o gofnodion mewn dyddlyfrau, yn seiliedig ar ein hasesiad risg ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol.<br>Gwnaed dau argymhelliad mewn perthynas â chofnodion mewn dyddlyfrau. |
| Prisio Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar – Mesuriadau ailbrisio yn anghywir | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• adolygu prosesau a rhagdybiaethau'r rheolwyr ar gyfer cyfrifo'r amcangyfrif, y cyfarwyddiadau i arbenigwyr prisio a chwmpas eu gwaith;<br>• ystyried cymhwysedd, arbenigedd a gwrthrychedd unrhyw arbenigwyr rheoli a ddefnyddir; ac<br>• adolygu a herio'r wybodaeth a ddefnyddir gan y prisiwr i sicrhau ei | Rydym wedi:<br>• adolygu prosesau a rhagdybiaethau'r rheolwyr ar gyfer cyfrifo'r amcangyfrif;<br>• adolygu cymhwysedd, arbenigedd a gwrthrychedd unrhyw arbenigwyr rheoli a ddefnyddir;<br>• adolygu'r cyfarwyddiadau i arbenigwyr prisio a chwmpas eu gwaith;<br>• adolygu a herio'r wybodaeth a ddefnyddir gan y prisiwr i sicrhau ei |

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| | bod yn gadarn ac yn cyfateb i'n dealltwriaeth.<br>• profi'r ailbrisiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn i sicrhau eu bod wedi'u mewnosod yn gywir i'r gofrestr asedau. | bod yn gadarn ac yn cyfateb i'n dealltwriaeth;<br>• profi'r ailbrisiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn i sicrhau eu bod wedi'u mewnosod yn gywir i'r gofrestr asedau; ac<br>• adolygu'r cofnodion cyfrifyddu mewn perthynas ag unrhyw ailbrisiadau i sicrhau eu bod yn cael eu hadlewyrchu'n gywir a llawn yn y datganiadau ariannol.<br>Nid oes gennym unrhyw faterion i'w hadrodd o ganlyniad i'n gwaith archwilio. |
| Comisiynu gofal iechyd – Addasiadau amrywiad gweithgarwch i wariant yn anghywir | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• mynd drwy'r rheolaethau gam wrth gam;<br>• profi gwariant ar gontractau yn sylweddol;<br>• cytuno ar incwm a gwariant credydwyr a dyledwyr y GIG i gydbwyso cytundebau;<br>• profi'r trafodion diwedd blwyddyn i sicrhau bod croniadau yn gyflawn; a<br>• phrofi croniadau yn sylweddol. | Rydym wedi:<br>• mynd drwy'r rheolaethau gam wrth gam;<br>• profi gwariant ar gontractau yn sylweddol;<br>• cytuno ar incwm a gwariant credydwyr a dyledwyr y GIG i gydbwyso cytundebau;<br>• profi'r trafodion diwedd blwyddyn i sicrhau bod croniadau yn gyflawn; a<br>• phrofi croniadau yn sylweddol.<br>Nid oes gennym unrhyw faterion i'w hadrodd o ganlyniad i'n gwaith archwilio. |
| Croniadau taliadau cydnabyddiaeth gweithwyr cyflogedig wedi'u tanbrisio. (Treuliau taliadau cydnabyddiaeth yn anghywir) | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• dogfennu ein dealltwriaeth o'r prosesau a'r rheolaethau allweddol dros y cylch trafod;<br>• mynd drwy'r rheolaethau gam wrth gam i asesu a | Rydym wedi:<br>• dogfennu ein dealltwriaeth o'r rheolaethau sy'n gweithredu yn y system gyflogres;<br>• mynd drwy'r rheolaethau gam wrth gam i |

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| | yw'r rheolaethau hynny wedi'u dylunio'n effeithiol;<br>• cysoni'r ffigur cyflogres yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (a nodiadau ategol) yn yr is-system cyfriflyfr a chyflogres;<br>• cynnal dadansoddiad o dueddiadau data cyflogres misol i nodi unrhyw amrywiant anghyffredin a ddylai fod yn destun gweithdrefnau archwilio;<br>• adolygu datgeliadau pensiwn a chytuno ar dystiolaeth sylfaenol o gyflawnrwydd a chywirdeb; ac<br>• adolygu datgeliadau taliadau cydnabyddiaeth, bandiau cyflog a phecynnau ymadael uwch reolwyr am gyflawnrwydd a chywirdeb. | gadarnhau bod y rheolaethau a nodir ar waith;<br>• cysoni'r ffigur cyflogres yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (a nodiadau ategol) yn yr is-system cyfriflyfr a chyflogres;<br>• cynnal dadansoddiad o dueddiadau a chysylltiadau i nodi unrhyw feysydd diffygiol ar gyfer gwaith sylweddol ychwanegol;<br>• adolygu datgeliadau pensiwn a chytuno ar dystiolaeth sylfaenol o gyflawnrwydd a chywirdeb; ac<br>• adolygu datgeliadau taliadau cydnabyddiaeth, bandiau cyflog a phecynnau ymadael uwch reolwyr am gyflawnrwydd a chywirdeb.<br>Cynigiwyd addasiadau ac argymhelliad o ganlyniad i'n gwaith. |
| Gofal Nyrsio a Ariennir (FNC) – y llynedd, cyhoeddodd y Goruchaf Lys fod rhaid i Fyrddau Iechyd yng Nghymru ailystyried eu dull o ariannu gofal nyrsio mewn cartrefi gofal.<br>Mae trafodaethau'n parhau, ond gallai'r effaith ar y Bwrdd Iechyd fod yn berthnasol ac mae'r dull cyfrifyddu yn 2017-18 yn debygol o arwain at amcangyfrifon a dyfarniadau sylweddol.<br>Felly, ystyrir bod FNC yn risg sylweddol. | Bydd fy nhîm archwilio yn cyflawni gwaith penodol yn y maes hwn i sicrhau bod y gwaith cyfrifyddu ac adrodd yn gywir. | Aethom ati i drafod yr effaith gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a dilysu'r cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r ddarpariaeth hon yn llawn, gan liniaru'r risg a nodwyd yn y Cynllun Archwilio.<br>Nid oes gennym unrhyw faterion i'w hadrodd o ganlyniad i'n gwaith archwilio. |

| Risg archwilio sylweddol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae yna risg sy’n dod i’r amlwg mewn perthynas â’r tariff gwasanaethau arbenigol HRG4+ newydd yn Lloegr. Gallai hyn gynyddu’r costau sy’n daladwy gan y Bwrdd Iechyd, a allai effeithio ar y sefyllfa o ran mantoli’r gyllideb. | Bydd fy nhîm archwilio yn trafod yr effaith gyda’r Cyfarwyddwr Cyllid ac yn adolygu unrhyw gofnodion cysylltiedig sydd angen eu gwneud yn y datganiadau ariannol i adlewyrchu unrhyw gostau ychwanegol. | Aethom ati i drafod yr effaith gyda’r Cyfarwyddwr Cyllid ac adolygu cofnodion cysylltiedig sydd angen eu gwneud yn y datganiadau ariannol i adlewyrchu unrhyw gostau ychwanegol.<br>Aethom ati hefyd i ddilysu’r cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru i ariannu’r gost ychwanegol hon yn llawn, gan liniaru’r risg a nodwyd yn y Cynllun Archwilio.<br>Nid oes gennym unrhyw faterion i’w hadrodd o ganlyniad i’n gwaith archwilio. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Text phone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru